

Cofrestr yr NMC Cymru

1 Ebrill 2025 –
31 Mawrth 2026



Mae ein data unigryw yn rhoi cyfrif o'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru – faint o bobl sy'n ymuno ac yn gadael y proffesiynau, ble cawsant eu haddysgu, eu nodweddion demograffig a mwy. Mae'r data yn seiliedig ar bobl sydd wedi rhoi cyfeiriad inni yng Nghymru.

Y darlun mawr

Ar 31 Mawrth 2026, roedd nifer uchaf erioed o **42,020** o weithwyr proffesiynol ar Gofrestr NMC gyda chyfeiriad yng Nghymru. Mae hynny'n **568** yn fwy na blwyddyn yn ôl (Mawrth 2025).

Fodd bynnag, fel y mae'r darlun ar gyfer y Gofrestr ledled y DU, mae'r gyfradd twf wedi arafu o'i gymharu â blyneddau blaenorol (**1.4%** yn 2025-26 o'i gymharu â **2.4%** yn 2024-25). Mae hyn yn cael ei yrru gan arafu mewn cofrestriadau domestig a rhwngwladol.

Ymunodd cyfanswm o **1,542** o weithwyr proffesiynol sy'n byw yng Nghymru â'r Gofrestr am y tro cyntaf yn y 12 mis hyd at Fawrth 2026. Mae hwn yn ostyngiad am yr ail flwyddyn yn olynol (**1,906** yn 2024-25 a **2,029** yn 2023-24).

Mae hynny'n cynnwys llai o weithwyr proffesiynol addysgedig yn y DU yn ymuno â'r Gofrestr – **1,321** ym mis Mawrth 2026 o'i gymharu â **1,505** ym mis Mawrth 2025.

Yn y cyfamser, fe wnaeth **1,570** o weithwyr proffesiynol sy'n byw yng Nghymru adael y Gofrestr. Mae hyn **7.3%** yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Mae hyn yn golygu, yng Nghymru, fod cyfradd y gweithwyr proffesiynol sy'n gadael y Gofrestr yn uwch na chyfradd y gweithwyr proffesiynol sy'n ymuno, er bod y Gofrestr yn parhau i dyfu'n gyffredinol.

¹ Cyflwynwyd rôl cymdeithion nyrsio yn 2019. Gall cymdeithion nyrsio fod yn byw yng Nghymru ond dim ond yn Lloegr y gallant ymarfer yn y rôl hon..

42,020

o weithwyr proffesiynol yng Nghymru



Cynnydd o

568

+1.4%

Ym mis Mawrth 2026, o'i gymharu â mis Mawrth 2025



Nyrsys

+1.3%

39,446



Bydwrededd

+3.5%

2,190



Cofrestreion deuol

-4.0%

335



Cymdeithion nyrsio¹

+32.4%

49

Rhwng 01 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, o'i gymharu â'r un cyfnod 2024-25



Ymunodd

1,542

â'r Gofrestr

-19.1%



Ymunodd

1,570

â'r Gofrestr

+7.3%


Amrywiaeth gynyddol y Gofrestr

Mae gweithwyr proffesiynol o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig bellach yn cyfrif am **15.3%** o gyfanswm y Gofrestr yng Nghymru (6,433). Mae hynny **1.6 pwynt canran yn uwch** na'r llynedd (**13.7%**).

Er bod y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth yn gynyddol amrywiol, mae nyrsys, bydwregedd a chymdeithion nyrsio yn profi hiliaeth a gwahaniaethu annerbyniol wrth ddarparu gofal. Adroddodd **Spotlight**, adroddiad mewnwelediad blynyddol 2025 y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, fod **40%** o'r gweithwyr proffesiynol a ymatebodd i'n harolwg blynyddol wedi dweud eu bod wedi profi gwahaniaethu yn y flwyddyn flaenorol, yn amlaf ar sail ethnigrwydd neu oedran. Mae hyn yn ddinistriol i'r unigolion hynny ac mae'n effeithio ar brofiad ac ansawdd gofal.

Mae'n ddyletswydd ar bawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal i wynebu hiliaeth a gwahaniaethu. Cyhoeddwyd **egwyddorion i gefnogi gwrth-hilioldeb mewn addysg ac ymarfer bydwreigiaeth a nyrsio** oherwydd bod gan ein proffesiynau hawl i ddysgu a gweithio mewn amgylcheddau sy'n cefnogi cyfiawnder a thegwch. Bwriedir iddynt ysgogi newid gwirioneddol cyn ein hymgyngghoriad ar ddiwygiadau i'r Cod a fydd yn cynnwys cynigion i gryfhau'r disgwyliad y bydd cofrestreion yn cydnabod, yn herio ac yn tarfu ar hiliaeth.

Rhaniad rhywedd gweithwyr proffesiynol sy'n byw yng Nghymru (% o'r Gofrestr)



Ym mis Mawrth 2026

Mae **481** o bobl wedi datgan anabledd²



² Bu gostyngiad yn nifer y gweithwyr proffesiynol yng Nghymru sy'n datgan anabledd. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu newidiadau yn y ffordd y caiff data anabledd ei gasglu, yn hytrach na gostyngiad mewn anabledd ar draws y gweithlu.

Ymunwyr rhyngwladol

Ni all ein data ar weithwyr proffesiynol sydd wedi'u haddysgu'n rhyngwladol yn ein hadroddiadau pedair gwlad byth fod yn bendant. Mae hyn oherwydd efallai nad oes gan weithwyr proffesiynol gyfeiriad cofrestredig yn y DU eto ar adeg cofrestru. Mae hyn yn golygu y gallai fod gweithwyr proffesiynol rhyngwladol sy'n gweithio yng Nghymru nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data hwn oherwydd nad ydynt wedi rhoi eu cyfeiriad yn y DU i ni eto.

Rydym yn annog pob ymunodd rhyngwladol â'n Cofrestr i ddiweddarau eu manylion trwy [MyNMC](#) cyn gynted â phosibl.

O'r data diweddaraf, gwyddom fod o leiaf **5,618** o weithwyr proffesiynol ar y Gofrestr yng Nghymru wedi'u haddysgu y tu allan i'r DU. Mae hyn yn gynydd o **641 (12.9%)** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y 12 mis hyd at Fawrth 2026, ymunodd **221** o weithwyr proffesiynol sydd wedi'u haddysgu'n rhyngwladol â'r Gofrestr. Mae hyn yn ostyngiad o **44.9%** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae hyn yn golygu, er bod nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u haddysgu'n rhyngwladol ar y Gofrestr wedi parhau i dyfu'n gyffredinol, bod y nifer a ymunodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi gostwng o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, gan gyfrannu at y gostyngiad cyffredinol yn nifer y bobl sy'n ymuno.

Dros yr un cyfnod, gadawodd **103** o weithwyr proffesiynol a oedd wedi'u haddysgu yn rhyngwladol y Gofrestr.

India yw'r ffynhonnell ymunowyr rhyngwladol fwyaf yng Nghymru o hyd. Yn 2024-25, yr ail a'r drydedd wledydd uchaf o ran nifer y myfyrwyr newydd a oedd wedi ymuno ag addysg ryngwladol oedd Ghana a'r Philipinau. Yn 2025-26, mae Nigeria wedi symud i'r trydydd safle, gan ddisodli'r Philipinau.

Mae hyn yn golygu bod dwy o'r ffynonellau mwyaf o ymuno rhyngwladol - Nigeria a Ghana - yn wledydd 'rhestr goch'. Mae recriwtio gweithredol o'r gwledydd hyn wedi'i wahardd gan y [codau ymarfer](#) perthnasol sy'n cynnal safonau moesegol ar recriwtio ac yn cefnogi tegwch iechyd byd-eang. Serch hynny, mae nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn rhydd i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch ble i ymarfer. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad pob cofrestrai sydd wedi'i addysgu'n rhyngwladol.

Gwledydd
o ble rydym yn
derbyn
y niferoedd uchaf
o ymunwyr newydd
a addysgwyd
yn rhyngwladol
(% o'r holl ymunwyr)

1		India	104 ↓ -56.8%
2		Ghana	28 ↓ -9.7%
3		Nigeria	24 ↑ +33.3%

Meysydd ymarfer

Mae pob maes ymarfer wedi gweld twf cymedrol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys nyrsio anableddau dysgu, sydd wedi tyfu ychydig yng Nghymru o hyd (+0.3%) ond wedi gostwng ledled y DU (-0.4%).

Pam mae pobl yn gadael y Gofrestr yng Nghymru?

Ers 2017 rydym wedi cynnal arolwg blynyddol o weithwyr proffesiynol a adawodd ein Cofrestr.

Mae ymatebion i [arolwg eleni](#) yn dangos mai ymddeoliad oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros weithwyr proffesiynol â chyfeiriad yng Nghymru yn gadael, er bod hyn wedi gostwng ychydig. Iechyd corfforol neu feddyliol yw'r ail reswm mwyaf cyffredin o hyd. Yng Nghymru, roedd yn annhebygol y byddai'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gadael yn argymhell eu proffesiwn, sy'n gyson â'r darlun ledled y DU a'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym yn y blynyddoedd blaenorol.

Rhannu ein mewnwelediadau i gefnogi'r sector

Rydym yn gobeithio y gall partneriaid a'r sector ehangach ddefnyddio'r trosolwg hwn o'n Cofrestr yng Nghymru, ochr yn ochr â'n [tablau data](#) cynhwysfawr a chrynodeb arolwg y rhai sy'n gadael, yn eu cynllunio gweithlu.


Os oes gennych gwestiynau am ein mewnwelediad neu syniadau ar sut y gallem wella defnyddioldeb yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni drwy research@nmc-uk.org.




Emma Westcott
Cyfarwyddwr Gweithredol
Strategaeth a Mewnwelediad

³ Nid yw hyd yr amser ers y cofrestrriad cyntaf o reidrwydd yn golygu cofrestru di-dor neu barhaus. Mae llawer o gofrestreion yn gadael y gofrestr am amrywiaeth o resymau, am un cyfnod neu fwy yn ystod eu gyrfaedd.

Erbyn mis Mawrth
2026, o'i gymharu
â'r llynedd



Hyd yr amser
ers y cofrestrriad
cychwynnol, newid
yn y 12 mis diwethaf³



Ni ddylem anghofio bod gweithwyr proffesiynol ymroddedig y tu ôl i'n data sy'n darparu gofal diogel ac effeithiol i bobl bob dydd. Rydym yn ddiolchgar am bopeth maen nhw'n ei wneud i'r bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.



Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel ac effeithiol ar draws pedair gwlad y DU – wedi'i reoleiddio a'i gefnogi gan yr NMC – sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gyda thegwch a chyfiawnder wrth wraidd popeth a wnawn.

Ein rôl yw **amddiffyn y cyhoedd a chynnal hyder** yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth. Fel y rheoleiddiwr annibynnol mwyaf yn Ewrop o fwy na 860,000 o weithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth, mae gennym rôl hanfodol wrth wireddu hyn.

Rydym yn gwneud hyn trwy **osod a hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel** ar gyfer pob nyrs a bydwraig yn y dyfodol a chofrestredig yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Rydym hefyd yn sicrhau bod pob nyrs, bydwraig a chymdeithion nyrsio ar ein Cofrestr yn bodloni **safonau ymddygiad ac ymarfer clir** sy'n amddiffyn y cyhoedd ac enw da ein proffesiynau.

Mae gennym ddyletswydd i **ymchwilio i bryderon** a chymryd camau i **amddiffyn y cyhoedd** yn yr achosion cymharol brin lle mae angen i ni gyfyngu ar hawl nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer.

Rydym yn adeiladu NMC newydd gyda gonestrwydd, tegwch, parch, ecwiti ac effeithiolrwydd wrth ei wraidd.

Rydym yn benderfynol o **wella a moderneiddio ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio**. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n hyderus yn ein gwaith.

23 Portland Place, London W1B 1PZ

+44 20 7637 7181 www.nmc.org.uk

 @nmcuk  @nmcnews

 The Nursing and Midwifery Council

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth